**CYNGOR CYMUNED LLANBERIS**

Polisi Cymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfodddol

*Telerau ac amodau ar gyfer cymorth ariannol i fudiadau lleol* ***sydd ddim yn gwneud elw.***

| | |
|---|---|
| Hawl i Weithredu | • Mae Adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol. |

| | |
|---|---|
| Bwriad y Cyngor Cymuned | • Bwriad y Cyngor yw cefnogi cymuned y fro.<br>• Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi y gwerth sydd yn y gwaith y mae'r sector wirfoddol yn ei wneud yn y gymuned.<br>• Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth ariannol i fudiadau cymunedol sydd ddim yn gwneud elw, ac sydd yn gweithio er lles trigolion cymuned Llanberis a Nantperis gyda'r bwriad o wella'r dewis o wasanaethau neu weithgareddau sydd ar gael yn y gymuned |

| | |
|---|---|
| Amserlen | • Dylid cyflwyno unrhyw gais erbyn **Ionawr 5.**<br>• Bydd y Cyngor yn penderfynu dilysrwydd cais yn ei gyfarfod llawn ym mis Ionawr.<br>• Gellir ystyried ceisiadau arbennig neu geisiadau brys tu allan i'r dyddiadau uchod. |

| | |
|---|---|
| Iaith | • Bydd disgwyl i bob grŵp neu fudiad sy'n gwneud cais am rodd fod yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymreig. |

| | |
|---|---|
| Defnyddio'r cymorth ariannol | • Prosiect cyfalaf.<br>• Costau rhedeg / gweinyddu. |

| | |
|---|---|
| Faint o gymorth ariannol sydd ar gael? | • Dim ond un cais am gymorth ariannol â ystyrir mewn un flwyddyn ariannol.<br>• Bydd cyfansymiau'r arian a gynigir yn amrywiwo yn ôl penderfyniad y Cyngor.<br>• Nid oes uchafswm y gellir gofyn amdano ond mae'r gyllideb yn gyfyngedig.<br>• Rhaid i bob cwestiwn ar y ffurflen gais gael ei ateb yn gywir ac yn gyflawn i greu darlun cynhwysfawr o waith a phwrpas y mudiad yn y gymuned. |

| | |
|---|---|
| Pwy sydd ddim yn gymwys | • Unigolion (e.e. chwaraewyr sydd yn chwilio am noddwyr).<br>• Canghennau y gellir eu hariannu trwy eu mudiad / sefydliad yn ganolog.<br>• Mudiadau neu fentrau sydd a'r bwriad o wneud elw.<br>• Prosiectau sydd â naws gwleidyddol neu grefyddol iddynt.<br>• Prosiectau sydd yn gwahaniaethu ar sail oed, lliw, amhariad, statws priodasol, ffordd o fyw a diwylliant, cenedligrwydd, tras, rhyw'r person, rhywioldeb, neu ar sail rhesymau economaidd neu statws cymdeithasol.<br>• Gwasanaethau gaiff arian gan gyllidebau statudol.<br>• Gall y Cyngor wrthod cymorth ariannol i fudiadau a ddylai gael eu cyllido o ffynonellau eraill.<br>• Adeiladau sydd heb eu hyswirio<br>• Costau cynnal a chadw neu drwsio offer (oni bai am amgylchiad eithriadol).<br>• Cyflog, costau teithio neu gostau gweinyddiaeth safonol.<br>• Lletygarwch. |

| | |
|---|---|
| Wrth wneud cais rhaid darparu'r canlynol: | • Ffurflen gais wedi ei chwblhau ac sydd ar gael gan Glerc y Cyngor neu ar wefan y Cyngor: cyngorllanberis.cymru<br>• Cyfrifon a Mantolen Ariannol cyfredol wedi ei Harchwilio.<br>• Datganiad Banc diweddaraf.<br>• Fe all y Cyngor ofyn am fwy o fanylion i gefnogi cais.<br>• Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddarllen a chytuno a'r gofyniadau yn y polisi hwn.<br>• Os nad yw'r mudiad yn gallu parhau a'r prosiect yna bydd rhaid dychwelyd yr arian yn ôl i'r Cyngor.<br>• Mae rhaid i'r cymorth ariannol gael ei ddefnyddio at y pwrpas y gofynnwyd amdano<br>• Gall y Cyngor ofyn am dystiolaeth fod yr arian wedi ei wario yn unol â'r pwrpas ac fe all y Cyngor ofyn am yr arian yn ôl os nad oes tystiolaeth ddigonol yn dod i law. |

| | |
|---|---|
| | **Noder bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol** |

Arwyddwyd: Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos

Dyddiad: 10/02/2021